Blwyddyn 3 a 4

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn rhannu gweithgareddau i chi eu cwblhau adref ar Microsoft Teams drwy Hwb. Mae Teams yn raglen gwych ar gyfer cadw mewn cysylltiad gyda'n gilydd fel dosbarth yn ystod y cyfnod yma. Gallwch rannu dogfennau, lluniau a fideos i ddangos y tasgau rydych wedi eu cyflawni adref a gweld yr hyn mae eich ffrindiau wedi gwneud hefyd. Rydym wedi paratoi tabl gweithgareddau i roi blas i chi o'r math o dasgau byddwn yn eu rhannu gyda chi ar Teams. Os nad oes gennych fynediad at y we adref, mae'r tabl gweithgareddau yn y pecyn yma. Gallwch gwblhau'r gweithgareddau a dod â nhw yn ôl i'r ysgol gyda chi pan fyddwn ni yn ôl.

Hwb®

Mae gan bob plentyn fanylion i fewngofnodi i'w cyfrif Hwb personol. Os nad yw eich plentyn yn gallu mewngofnodi, cysylltwch â ni.

Rydych yn gallu defnyddio Teams drwy Hwb neu lawrlwytho'r app a mewngofnodi gyda eich manylion Hwb.

twinkl

Mae cwmni Twinkl wedi creu llwyth o adnoddau ar gyfer plant o bob oedran. Rydym wedi rhoi llawer o'r adnoddau yn adran 'Files' yn Teams. Os hoffech chi lawrlwytho mwy o adnoddau gallwch ddefnyddio côd UKTWINKLHELPS i gael mynediad am ddim i'r wefan.

Bydd cyfle i chi ddod i'r ysgol dros y dyddiau nesaf i gasglu unrhyw adnoddau hoffech gael gopiau papur ohonynt. Hefyd gallwch ddod i gasglu llyfrau darllen ar gyfer eich plentyn.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth dros y cyfnod yma. Edrychwn ymlaen at gadw mewn cysylltiad ar Teams!

Miss Fox a Miss Hughes